

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Briff ar y Nodau
Datblygu
Cynaliadwy**

Mehefin 2019

Cyflwyniad

Mabwysiadwyd fframwaith y Nod Datblygu Cynaliadwy (SDG) gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2015 a bydd mewn grym tan 2030. Mae'n disgrifio 17 o nodau byd-eang sy'n darparu 'glasbrint ar y cyd ar gyfer heddwch a ffyniant i bobl a'r blaned'.¹ Mae'r SDGau yn berthnasol ar lefel ddomestig a thramor ac mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig yn gyfrifol am weithredu'r SDGau gartref a chyfrannu at gynnydd yn rhyngwladol.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) yn gorff statudol ym Mhrydain Fawr, a sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae'n un o dri sefydliad hawliau dynol cenedlaethol 'Statws A' (NHRIau) yn y DU, ochr yn ochr â Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon.² Mae'r cyrff hyn i gyd yn cyflawni SDG 16.A.1 – i sefydlu NHRIau annibynnol, gan weithredu'n annibynnol i annog cydraddoldeb ac amrywiaeth, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a monitro a hyrwyddo cydymffurfiaeth â hawliau dynol. Mae Datganiad Mérida 2015, yn annog 'pob NHRI, [...] i gyfrannu at ddull gweithredu yn seiliedig ar hawliau dynol ar gyfer gweithredu Agenda 2030 [Datblygu Cynaliadwy]',³ gan gynnwys rhoi cyngor i lywodraethau cenedlaethol a monitro cynnydd ar y SDGau.

Ym mis Mehefin 2019, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hadolygiad cenedlaethol gwirfoddol (VNR) o gynnydd ar y SDGau i Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel (HLPF) y Cenhedloedd Unedig. Bydd y Fforwm yn canolbwyntio ar Nodau 4 (addysg), 8 (gwaith), 10 (anghydraddoldeb llai), ac 16 (cymdeithasau heddychlon a chynhwysol, cyfiawnder i bawb), yn ogystal â Nod 13 (newid hinsawdd) ac 17 (partneriaeth fyd-eang). Mae'r pedwar cyntaf yn ymwneud yn uniongyrchol â chylch gwaith y Comisiwn. Rydym wedi cynhyrchu'r briff byr hwn yn unol â'n rhwymedigaethau fel NHRI, fel y nodir yn Natganiad Mérida. Nid yw cwmpas y briff hwn yn ymdrin â materion sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban, sy'n gyrru gweithrediad y SDGau yng Ngogledd Iwerddon a'r 4^{Alban} i raddau helaeth.⁵ Mae'r briff yn amlygu rhai o'n pryderon allweddol ynghylch dull presennol

¹ [Tudalen Gartref SDG y Cenhedloedd Unedig](#) [agorwyd: 27 Chwefror 2019].

² Mae gan y Comisiwn gylch gwaith a rennir yn yr Alban gyda Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC), gyda SHRC yn monitro materion hawliau dynol sydd wedi'u datganoli. Felly mae'r briff hwn yn canolbwyntio ar Gymru, Lloegr a materion heb eu datganoli yn yr Alban lle bo'n berthnasol.

³ Datganiad Merida (2015), Rôl Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol wrth weithredu Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

⁴ Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (2019), [Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig](#) [agorwyd 19 Mehefin 2019].

⁵ Llywodraeth yr Alban (2019), [Nodau Datblygu Cynaliadwy](#) [agorwyd 19 Mehefin 2019].

Llywodraeth y DU o weithredu SDG, ac mae'n nodi lle mae angen cymryd camau pellach i gyflawni Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.

Y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol a'r SDGau

Fel y nodwyd yn Natganiad Mérida, mae Agenda 2030 wedi'i gwreiddio'n gadarn yn y fframwaith hawliau dynol rhyngwladol.⁶ Mae'r 17 SDG yn adlewyrchu safonau hawliau dynol, ac mae 92 y cant o'r 169 targed cysylltiedig yn gysylltiedig ag offerynnau hawliau dynol rhyngwladol.⁷ Disgwylir y bydd gweithredu'r SDGau yn gyson â hawliau dynol rhyngwladol, ac yn ei dro dylai gyfrannu at wireddu 'hawliau dynol i bawb'.⁸ Felly, mae cysylltiad annatod rhwng y SDGau a'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol ac atgyfnerthir ei gilydd, a dylai llywodraethau trin y ddau fframwaith gyda'i gilydd. Gall yr argymhellion o gyrff cytundebau'r Cenhedloedd Unedig lywio monitro ac adrodd SDGau, a dylai gweithredu'r SDGau fod yn ganolog i weithredu rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol y Llywodraeth.

Er gwaethaf y cysylltiadau clir rhwng y SDGau a'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael bod Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn cysylltu'r SDGau â'i hadroddiadau a'i monitro hawliau dynol ac yn mabwysiadu ymagwedd gydgysylltiedig, draws-lywodraethol at y ddwy set o rwymedigaethau. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw orgyffwrdd o gwbl rhwng yr arweinwyr ar y SDGau a'r rhai ar gytundebau hawliau dynol rhyngwladol yn adrannau Llywodraeth y DU.

Yn ddomestig, ymddengys bod y SDGau yn ymddangos i raddau helaeth yn berthnasol yn rhyngwladol, yn hytrach nag ar lefel ddomestig a rhyngwladol.⁹ Yn y DU, yr adran arweiniol ar gyfer y SDGau yw'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, a all atgyfnerthu'r farn hon, er bod disgwyl i bob adran o'r Llywodraeth gysylltu eu gwaith â'r SDGau yn eu cynlluniau adrannol unigol¹⁰ ac adrodd ar y cynnydd ar y cynlluniau hyn i Swyddfa'r Cabinet.¹¹ Mynegwyd pryderon yn ystod gwaith craffu

⁶ Datganiad Merida (2015), Rôl Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol wrth weithredu Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, para 6.

⁷ Sefydliad Hawliau Dynol Denmarc (2018), 'Hawliau Dynol ac Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'.

⁸ Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (2015), 'Trawsnewid ein byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'.

⁹ Y Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol (2016), Adroddiad Cyntaf Sesiwn 2016–17, gweithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn y DU, para 74.

¹⁰ Mae'r cynlluniau adrannol unigol ar gael yn ['Adeiladu gwlad sy'n gweithio i bawb: cynllun y llywodraeth'](#) [agorwyd: 27 Chwefror 2019].

¹¹ Briff Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi (2018), Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: Integreiddio i Ddadl Polisi'r DU ar 22 Tachwedd 2018.

seneddol na fu digon o weithio traws-lywodraethol ar y SDGau¹², nad oes llinellau atebolrwydd clir i'w gweithredu ar draws y Llywodraeth, ac nad oes cynllun gweithredu na strategaeth glir.¹³

Argymhellion

Er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a'r fframwaith hawliau dynol rhyngwladol, a dangos ymagwedd gydgysylltiedig at ymrwymadau hawliau dynol y DU ar lefel ddomestig, argymhellwn:

- Mae llywodraethau'r DU a Chymru wedi sefydlu mecanweithiau cenedlaethol cynhwysfawr ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd a gweithrediad y SDGau. Dylai'r rhain fod yn gyson â rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol y Llywodraeth, ac wedi'u hintegreiddio â hwy, yn enwedig yr argymhellion a wnaed gan gyrrff cytundebau'r Cenhedloedd Unedig a thrwy'r broses Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol.
- Dylai cyfrifoldeb cyffredinol am y SDGau eistedd gydag uwch weinidogion yn llywodraethau'r DU a Chymru sydd wedi'u grymuso â chylch gorchwyl llunio polisi sylweddol yn ddomestig a phwy all yrru ymlaen gweithredu.
- Dylid integreiddio'r SDGau yn llawn i Gynlluniau Adrannol Sengl, dylid gwneud swyddi hyrwyddwyr SDG adrannol yn swyddi parhaol, a dylai fod cyfrifoldeb parhaus am gynnydd ar SDGau ar lefel cyfarwyddwr, gan ddilyn y VNR.
- Dylai llywodraethau'r DU a Chymru ymgorffori cytundebau hawliau dynol rhyngwladol mewn cyfraith ddomestig, fel y gall unigolion herio troseddau hawliau yn effeithiol gan ddefnyddio'r system gyfreithiol ddomestig a chael gafael ar rwymedi domestig am achosion honedig o dorri eu hawliau.

Blaenoriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol o fewn Nodau Datblygu Cynaliadwy 4, 8, 10 ac 16

Mae adolygiadau'r Comisiwn o gydraddoldeb a hawliau dynol Prydain (IBF 2018) a Chymru (IWF 2018),¹⁴ a'n hadroddiadau ar fecanweithiau adolygu'r Cenhedloedd

¹² Y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol (2019), gwaith dilynol Nodau Datblygu Cynaliadwy yn y DU: Newyn, diffyg maeth ac ansicrwydd bwyd yn y DU, paragraff 9.

¹³ [Llythyr Pwyllgor Datblygu Rhyngwladol, 2 Ebrill 2019, at yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghylch Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy](#) [agorwyd 6 Mehefin 2019].

¹⁴ [Gweler adroddiadau 'A yw Prydain yn Decach?' ac 'A yw Cymru'n Decach?' 2018](#) [agorwyd 14 Mehefin 2019].

Unedig,¹⁵ yn nodi meysydd pryder allweddol lle mae angen cymryd camau pellach i weithredu'r SDGau ar lefel ddomestig. Mae ein hadroddiadau yn cynnwys argymhellion ar y rhain a materion eraill sy'n berthnasol i'r SDGau.

Yn yr adran isod rydym yn tynnu sylw at y dystiolaeth allweddol o'n hadroddiadau sy'n ymwneud â SDGau 4, 8, 10 ac 16 – pedwar o'r Nodau sy'n cael eu hadolygu yn y Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel yn ddiweddarach eleni. Mae'n werth nodi bod diffyg data ar grefydd a chred, beichiogrwydd a mamolaeth, a phryderon LHDT yn golygu bod gwir raddfa canlyniadau anffafriol neu gynnydd dros amser yn aneglur i lawer o bobl, felly nid yw'r dystiolaeth hon yn gynhwysfawr. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ganfyddiadau a gyflwynir yn y briff hwn yn deillio o ddadansoddiad ar gyfer adolygiad statudol y Comisiwn 'A yw Prydain yn Decach?' (2018).¹⁶

Nod Datblygu Cynaliadwy 4: Sicrhau addysg o ansawdd gynhwysol a theg a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb

Mae ein hadolygiad o gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain, a gyhoeddwyd yn 2018, yn dangos gwelliannau mewn cyrhaeddiad ysgolion ar gyfer y rhan fwyaf o blant ledled Cymru a Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhai o gefndiroedd incwm is, a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, fodd bynnag, yn dal i gael canlyniadau arholiadau gwaeth o lawer na grwpiau eraill. Mae'r un plant hyn hefyd yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol. Mae cyfran y plant anabl mewn ysgolion arbennig, yn hytrach nag ysgolion prif ffrwd, wedi cynyddu yng Nghymru a Lloegr, ac maent yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o ysgolion prif ffrwd. Mae pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig yn llai tebygol o fynd i'r brifysgol, ac mae bylchau mewn cyflawniad yn y brifysgol yn parhau ar gyfer myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig a myfyrwyr anabl. Mae'n amlwg bod plant tlotach neu anabl yn llawer llai tebygol o elwa o waith tuag at Nod 4. Mae angen gweithredu mewn ffordd targedig a'i gynnal er mwyn sicrhau bod pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir neu amgylchiadau, yn gallu mwynhau addysg gynhwysol ac o ansawdd uchel.

Nod Datblygu Cynaliadwy 8: Hyrwyddo twf economaidd parhaus, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith digonol ei ansawdd i bawb

¹⁵ Fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol, un o brif swyddi'r Comisiwn yw monitro cydymffurfiaeth y DU â saith cytundeb hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig y mae wedi'u llofnodi a'u cadarnhau. Rydym hefyd yn cymryd rhan yn y broses Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol. Gellir gweld ein holl adroddiadau ar fecanweithiau adolygu'r Cenhedloedd Unedig ar ein gwefan yn ['Monitro a hyrwyddo cytundebau'r Cenhedloedd Unedig'](#) [agorwyd 14 Mehefin 2019].

¹⁶ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ['A yw Prydain yn Decach?' 2018](#) [agorwyd 14 Mehefin 2019].

Mae ein dadansoddiad yn dangos, er gwaethaf cyfraddau cyflogaeth cynyddol ar draws Prydain, gwell canlyniadau i fenywod, pobl Dduon a Phacistanaid, a chulhau ychydig yn y bwlch cyflogaeth i bobl anabl ers 2015, mae yna feysydd pryder o hyd mewn perthynas â Nod 8. Mae gan bobl anabl, pobl Pacistanaid a Bangladeshaid a Mwslimiaid gyfraddau cyflogaeth is a diweithdra uwch yn gyson ac maent yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr na grwpiau eraill ym Mhrydain. Roedd y gyfradd gyflogaeth gyffredinol yn is yng Nghymru nag yn Lloegr, tra bod y gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl anabl ddwywaith yn uwch na phobl nad ydynt yn anabl yng Nghymru yn 2016/17. Parhaodd grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gael eu tangynrychioli mewn prentisiaethau yng Nghymru yn 2016/17.

Mae mwyafrif y plant sydd mewn tlodi mewn teuluoedd¹⁷ sy'n gweithio ac mae gan bobl o'r aelwydydd mwyaf difreintiedig gyrhaeddiad addysgol sylweddol is, gan eu rhoi dan anfantais gydol oes yn y farchnad gyflogaeth. Mae rhai gweithwyr yn wynebu ystod o rwystrau ychwanegol gan gynnwys cyflogau isel,¹⁸ cyflogaeth ansicr, costau gofal plant cynyddol,¹⁹ gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth, aflonyddu rhywiol yn y gweithle, gwahaniaethu ar sail anabled a gwahaniaethu ar sail hil. Felly mae angen gweithredu ymhellach i fodloni gofynion Nod 8, a sicrhau bod cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith o ansawdd digonol yn realiti i bawb.

Nod Datblygu Cynaliadwy 10: Lleihau anghydraddoldeb o fewn ac ymysg gwledydd

Canfu ein hadroddiad 'A yw Prydain yn Decach? 2018' bod cynnydd wedi bod i leihau anghydraddoldeb ym Mhrydain (rhwng 2015 a 2018), ond mae angen mynd i'r afael â heriau difrifol o hyd. Mae bylchau mawr yn parhau rhwng profiadau a chanlyniadau rhai grwpiau (pobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, a phlant o gefndiroedd tlotach yn arbennig) a'r boblogaeth yn gyffredinol, ac mae'r bylchau hyn yn dod yn fwyfwy sefydledig. Mae pobl mewn tlodi yn wynebu rhwystrau lluosog ac mae'r grwpiau sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd materol difrifol (pobl anabl, a phobl Pacistanaid, Bangladeshaid a Du, yn enwedig menywod du), wedi aros yr un fath ers 2010/11. Mae cyfraddau tlodi yng Nghymru yn parhau i gynyddu, gydag un o bob pedwar o bobl yn byw mewn tlodi yng Nghymru o'i gymharu ag un o bob pump ar draws Prydain. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol wedi'i chysylltu'n gryf â chanlyniadau gwaeth mewn addysg ac iechyd. Er enghraifft, er bod disgwyliad

¹⁷ Sefydliad Joseph Rowntree. '[Cyllideb 2018: mynd i'r afael â'r llanw cynyddol o dlodi mewn gwaith](#)' [agorwyd: 14 Mehefin 2019]; Cribb, J., Hood, A., Joyce, R. a Norris Keiller, A. (2017). Sefydliad Astudiaethau Cyllid. '[Tlodi mewn gwaith ymhlith teuluoedd â phlant](#)' [agorwyd: 11 Mehefin 2019].

¹⁸ Fullfact (2018), 'Sut mae cyflogau wedi newid dros y degawd diwethaf?'

¹⁹ Fel y gwelir yn:: [Sefydliad Joseph Rowntree, 'Costau gofal plant'](#) [agorwyd: 29 Mai 2019].

oes ledled Prydain yn cynyddu, nid yw hyn yn wir am ddynion sy'n oedolion sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Cynyddodd tlodi plant rhwng 2010/11 a 2015/16: mae tri o bob 10 plentyn ym Mhrydain yn byw mewn tlodi, ac mae hyn yn codi i hanner y plant Du Affricanaidd, Bangladeshaidd a Phacistanaidd ledled Prydain. Mae newidiadau mewn gwariant cyhoeddus (a diwygiadau treth a lles), rhwng 2010 a 2018 wedi creu effeithiau gwahaniaethol. Mae aelwydydd ethnigrwydd Du ac 'Arall' wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol nag aelwydydd Gwyn, ac mae aelwydydd unig riant (benywaidd yn bennaf) yn cael eu heffeithio'n fwy negyddol nag aelwydydd demograffig eraill o ran incwm terfynol. Mae gan aelwydydd â mwy o aelodau anabl (ac unigolion ag anabledau mwy difrifol) fwy o golledion fel canran o'r incwm terfynol.²⁰ Mae'r anfanteision parhaus a wynebwr gan rai grwpiau yn awgrymu bod ffordd sylweddol i fynd o hyd i leihau anghydraddoldebau mewn cymdeithas.

Nod Datblygu Cynaliadwy 16: Hyrwyddo cymdeithasau heddychlon a chynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy, darparu mynediad i gyfiawnder i bawb a chreu sefydliadau effeithiol, atebol a chynhwysol ar bob lefel

Mae angen gwneud llawer mwy i greu cymdeithas sy'n gynhwysol ac yn heddychlon i bawb, ac i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i gyfiawnder a'u bod yn cael eu trin yn deg gan ein cyfreithiau a'n sefydliadau. Mae ein dadansoddiad yn dangos atchweliad mewn perthynas â nifer o ofynion Nod 16, gan gynnwys y targedau i leihau pob math o drais yn sylweddol, i roi terfyn ar gam-drin, ecsbloetio, masnachu mewn pobl a thrais yn erbyn plant, i sicrhau mynediad cyfartal i gyfiawnder, ac i hyrwyddo a gorfodi cyfreithiau anwahaniaethol.²¹ Rydym wedi gweld dirywiad mewn mynediad at gyfiawnder, gan gynnwys gostyngiadau mewn cymorth cyfreithiol, dirywiad mewn amodau cadw, cynnydd sylweddol yn y defnydd o ataliaeth yn yr ystâd garcharu ieuencid yng Nghymru a Lloegr, a'r defnydd parhaus o ataliaeth boenus ar blant mewn lleoliadau cyfiawnder ieuencid,²² a risgiau anghymesur o drais i lawer o grwpiau.

Mae gorboblogi yn gyffredin mewn cyfran uchel o garchardai oedolion yng Nghymru a Lloegr, ac mae cynnydd wedi bod mewn hunan-niwed ac ymosodiadau mewn carchardai. Mae plant mewn lleoliadau cyfiawnder ieuencid yn dweud eu bod yn

²⁰ Portes, J. a Reed, H. (2018). Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. ['Effaith gronol diwygiadau treth a lles'](#) [agorwyd: 11 Mehefin 2019].

²¹ Gweler ['Datblygu Cynaliadwy Nod 16'](#) [agorwyd 6 Mehefin 2019].

²² Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019), ['Artaith yn y DU: adroddiad diweddar. Cyflwyniad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith mewn ymateb i Restr Materion y DU'](#) [agorwyd 14 Mehefin 2019].

teimlo'n anniogel, ac mae cyfraddau trais yn erbyn staff a thrais gan gymheiriaid wedi cynyddu.²³ Bu cynnydd mewn atgyfeiriadau dioddefwyr posibl masnachu mewn pobl, gan gynnwys plant, at y Mekanwaith Cyfeirio Cenedlaethol – y ffordd y caiff dioddefwyr masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern eu nodi a'r ffordd y maent yn derbyn cymorth – ond mae nifer yr atgyfeiriadau yn fach o'u cymharu ag amcangyfrifon y Llywodraeth ei hun o 10,000–13,000 o ddiodeswyr yn y DU.²⁴ Mae menywod, pobl anabl, a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o fod yn ddiodeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o brofi mathau penodol o drais, megis troseddau rhywiol, trais domestig a thrais 'yn seiliedig ar anrhydedd' fel y'i gelwir; mae menywod anabl yn profi lefelau anghymesur o drais a cham-drin gan ofalwyr, partneriaid a'r rheini yn y gymuned.²⁵

Mae Nod 16 yn ymwneud â'r graddau y mae pobl yn teimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn ar sail nodwedd warchoddedig.²⁶ Rhwng 2013/14 a 2016/17 roedd y mwyafrif o droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fel troseddau casineb yn cael eu hysgogi gan hil neu grefydd, gyda chyfanswm yr holl droseddau casineb yn cynyddu yng Nghymru a Lloegr gan 80 y cant. Er y gallai rhywfaint o'r cynnydd hwnnw fod o ganlyniad i welliannau yng ngwaith yr heddlu a mwy o ymwybyddiaeth, mae hyn yn bryder arbennig o ystyried cynnydd mewn troseddau casineb yn dilyn refferendwm yr UE neu ar adegau o ymosodiadau terfysgol diweddar. Mae ein gwaith diweddar (2018) i ddatblygu baromedr cenedlaethol o ragfarn a gwahaniaethu yn dangos bod 42% o bobl ym Mhrydain wedi profi rhyw fath o ragfarn yn seiliedig ar nodwedd warchoddedig yn y 12 mis blaenorol: Roedd 64% o bobl Ddu a 70% o Fwslimiaid a arolygwyd wedi profi rhagfarn ar sail hil neu grefydd yn y drefn honno.²⁷

²³ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2019), '[Artaith yn y DU: adroddiad diweddar. Cyflwyniad i Bwyllgor y Cenedloedd Unedig yn erbyn Artaith mewn ymateb i Restr Materion y DU](#)' [agorwyd 14 Mehefin 2019].

²⁴ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018), '[Pwyso am gynnydd: hawliau menywod a chydraddoldeb rhyw yn 2018](#)' [agorwyd 14 Mehefin 2019].

²⁵ Ibid.

²⁶ Nod 16, dangosydd 16.B. 1.

²⁷ Abrams, D., Swift, H., a Houston, D. (2018). Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad ymchwil 119. '[Datblygu baromedr cenedlaethol o ragfarn a gwahaniaethu ym Mhrydain](#)' [agorwyd 14 Mehefin 2019].

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gael un o'n cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy [gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr](#).

Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau agor 09:00 i 19:00 (Llun i Gwener)

10:00 i 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mehefin 2019

ISBN: 978-1-84206-800-7